



Teitl: *Gweithdrefnau Prawf Myfyrwyr:*
Cyfeirnod: *Aseinir hwn i'r ddogfen adeg ei chymeradwyo*
Fersiwn: *1.0*
Dyddiad Dosbarthu: *Mawrth 2017*
Dosbarthiad: *Cyhoeddus*

Adolygu a Chymeradwyo

Cyfrifoldeb:	<i>Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd a Sgiliau Hanfodol</i>
Corff Cymeradwyo:	<i>CSG 13 Mawrth 2017</i>
Dyddiad Cymeradwyo:	<i>Pryd gafodd y ddogfen ei chymeradwyo? (e.e. dyddiad y cyfarfod)</i>
Amllder Adolygu:	<i>3 Blynedd Fel Arfer</i>
Dyddiad y Daw i Ben	<i>Ebrill 2020</i>

Cwmpas

Mae'r strategaeth hon yn berthnasol ar gyfer pob math o ddarpariaeth dysgu ac addysgu yn y Coleg, gan gynnwys addysg bellach, addysg uwch, cyrsiau cyswllt ysgolion, dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith.

Gweithdrefnau Prawf Myfyrwyr

Datganiad Polisi:

Mae'r polisi yn datgan bod myfyrwyr sy'n cofrestru i astudio ar ôl tynnu'n ôl yn flaenorol, neu fyfyrwyr sydd wedi cael anawsterau blaenorol o ran mynychu, prydlondeb, agwedd at waith neu faterion disgyblaethol eraill, yn cael eu rhoi ar gyfnod prawf o wyth wythnos. Gallai hyn hefyd gynnwys myfyrwyr sydd wedi methu arholiadau blaenorol neu sydd ag amgylchiadau eithriadol eraill. Mae cytuno i'r cyfnod prawf hwn yn amod cofrestru yn y Coleg. Yn ystod y cyfnod prawf, bydd myfyrwyr yn cael cefnogaeth dda gyda chynllun gweithredu a gosod targedau eglur mewn grym i'w cynorthwyo i gwblhau'r cyfnod prawf yn llwyddiannus.

Y Drefn:

1. Bydd myfyrwyr yn cofrestru gan ddilyn y gweithdrefnau arferol, ar yr amod y byddant ar gyfnod prawf os ydynt yn dod oddi mewn i'r categorïau a restrir uchod.
2. Bydd Dirprwy Gyfarwyddwyr yn dynodi'r myfyrwyr hyn o'r cofrestriadau ac yn cyfarfod â nhw i gytuno ar gynllun gweithredu a fydd yn cael ei lofnodi a'i anfon yn ôl at y Dirprwy Gyfarwyddwr, fel arfer cyn i'r myfyriwr gychwyn dosbarthiadau yn y Coleg. Bydd yn rhaid hysbysu'r rhieni/gwarcheidwaid hefyd os yw'r myfyriwr o dan 18 oed. Cofnodir hyn ar gynllun dysgu unigol electronig y Coleg.
3. Bydd y cyfnod prawf yn cael ei adolygu ar ôl 8 wythnos gan y Dirprwy Gyfarwyddwr a'r Tiwtor Personol a gwneir penderfyniad naill ai i ddod â'r cyfnod prawf i ben o ganlyniad i'w gwblhau'n llwyddiannus neu i dynnu'r myfyriwr yn ôl. Bydd y penderfyniad yn seiliedig ar bresenoldeb, agwedd a chyflwyniad gwaith y myfyriwr yn ystod y cyfnod 8 wythnos.
4. Fel arfer bydd y myfyriwr yn cael ei hysbysu o ganlyniad yr Adolygiad trwy lythyr gyda chopi i rieni/gwarcheidwaid os yw'r myfyriwr o dan 18 oed.
5. Fe allai'r myfyriwr apelio yn erbyn penderfyniad i'w tynnu'n ôl o'r cwrs a/neu'r Coleg ar sail presenoldeb/agwedd/cyflwyno gwaith gwael. Rhaid i gais o'r fath fod yn seiliedig ar:
 - i. na ddilynwyd y gweithdrefnau'n gywir;
 - ii. a/neu fod yna dystiolaeth newydd arwyddocaol nad oedd ar gael ar y pryd.

Y Drefn Apelio:

Pan ddywedir wrth fyfyrwyr y byddant yn cael eu tynnu'n ôl o gwrs a/neu'r Coleg, mae'n rhaid iddynt nodi'r sail dros apelio yn ysgrifenedig at y Pennaeth Cynorthwyol o fewn deg diwrnod gwaith i dderbyn hysbysiad o'r fath.

1. Os na fydd apêl yn cael ei gwneud o fewn deg diwrnod gwaith, bydd y myfyriwr yn colli'r hawl i apelio.
2. Bydd yr apêl yn cael ei chlywed gan banel apêl yn cynnwys:
 - i. Y Pennaeth Cynorthwyol
 - ii. Dirprwy Gyfarwyddwr annibynnol
3. Ni fydd aelodau'r panel apêl wedi bod ag unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos.
4. Bydd gwrandawriad apêl yn cael ei alw gan y Pennaeth Cynorthwyol.
5. Fel rheol bydd gwrandawriad apêl yn cael ei alw o fewn deg diwrnod gwaith i dderbyn yr hysbysiad o apêl.
6. Bydd y myfyriwr yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig yn nodi amser, dyddiad a man cyfarfod lle bydd yr apêl yn cael ei hystyried, yn cael dim llai na phedwar diwrnod gwaith ac yn cael copi o'r drefn apelio hon.
7. Gall y myfyriwr sydd yn destun y gwrandawriad ddod ag un person arall gyda nhw.
8. Bydd y gwrandawriad yn agored i'r cyhoedd.
9. Fel arfer, cynhelir yr achos fel a ganlyn, er y bydd gan y panel yr hawl i amrywio'r drefn mewn amgylchiadau priodol:
 - i. cyflwyniad gan y myfyriwr a wnaeth yr apêl, a allai gynnwys galw tystion;
 - ii. cyflwyno tystiolaeth gan y Dirprwy Gyfarwyddwr priodol;
 - iii. fe allai'r panel holi cwestiynau i unrhyw un sy'n ymddangos ger ei bron ar unrhyw adeg o'r achos;
 - iv. bydd y panel yn ystyried y dystiolaeth ac yn dod i ganlyniad;

- v. bydd y panel yn hysbysu'r partiön o'u penderfyniad ond ni fydd yn gorfod rhoi rhesymau dros ei benderfyniad. Os bydd y panel yn rhoi ei benderfyniad yn llafar, bydd yn cael ei gadarnhau o fewn pum diwrnod gwaith. Fel arall, os na fydd y penderfyniad yn cael ei roi yn llafar fe fydd, sut bynnag, yn cael ei hysbysu i'r partiön o fewn pum diwrnod gwaith.
 - vi. Fe allai'r gwrandawriad gael ei ohirio ar unrhyw adeg os yw'r panel yn ystyried hynny'n briodol. Bydd aelod o'r panel yn hysbysu pob parti sy'n mynychu'r gwrandawriad o'r penderfyniad i ohirio.
10. Gall gwrandawriad gael ei ohirio, ond am ddim mwy na thri diwrnod gwaith fel arfer, os gall unrhyw barti ddangos rheswm da dros fethu â mynychu ar yr adeg a bennwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, os bydd myfyriwr yn methu â mynychu gwrandawriad, ni fydd hyn yn atal panel rhag dod i benderfyniad.
11. Mae penderfyniad y panel apêl yn derfynol.

LLYTHYR CYTUNDEB enghreifftiol y gellir ei deilwra fel y bo'n briodol

Annwyl

Y mae'n bolisi gan Goleg Cambria fod myfyrwyr sy'n cofrestru i astudio ar ôl tynnu'n ôl yn flaenorol neu wedi bod yn aflwyddiannus oherwydd absenoldeb, agwedd at waith neu faterion disgyblaethol, yn cael eu rhoi ar gyfnod prawf wyth wythnos o ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae cytuno â'r cyfnod prawf hwn yn amod ailgofrestru yng Ngholeg Cambria.

Ar ôl 8 wythnos, bydd eich cofnodion presenoldeb, agwedd a chyflwyno gwaith dros y cyfnod hwnnw yn cael ei adolygu, a phenderfyniad yn cael ei wneud naill ai i ddod â'r cyfnod prawf i ben o ganlyniad i'w gwblhau'n llwyddiannus neu eich tynnu yn ôl. Fe'ch hysbysir o'r penderfyniad trwy lythyr.

A fyddech gystal â darllen y cytundeb atodedig yn ofalus iawn a'i arwyddo, ei ddyddio a'i ddychwelyd ataf i.

Os bydd angen cymorth neu eglurhad arnoch ynghylch y materion a godwyd yn y llythyr hwn, cysylltwch â mi.

CYTUNDEB MYFYRIWR

Yr wyf i _____, yn derbyn fy mod i wedi cael fy rhoi ar brawf am wyth wythnos.

Yr wyf yn cytuno i gydymffurfio â'r canlynol er mwyn parhau i fod yn fyfyrwr yng Ngholeg Cambria. Byddaf:

1. Y mynychu pob gwern a sesiynau Tiwtor Personol (ac eithrio am resymau meddygol neu ddilys eraill, gan ddarparu tystiolaeth ar eu cyfer). Mae hyn hefyd yn cynnwys tiwtorialau a sesiynau cefnogi sydd yn rhan o'r rhaglen ddysgu.
2. Yn brydlon ar gyfer pob gwern a sesiynau Tiwtor Personol.
3. Yn cwblhau pob aseiniad ar amser ac ar lefel briodol.
4. Yn cydymffurfio â holl reolau a rheoliadau'r Coleg.

Bydd methu â chydymffurfio yn arwain at gael eich tynnu'n ôl o'r cwrs astudio a/neu o'r Coleg.

Enw:

Myfyrwr

Arwyddwyd:

Dyddiad:

Enw:

Dirprwy Gyfarwyddwr

Arwyddwyd:

Dyddiad:
